Cyfarfod Blynyddol 2026

Adroddiad y Trysorydd

(*elusen rhif 1190243)*

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar y cyd â Datganiad o'r Cyfrifon am 2025/26 sy'n crynhoi holl incwm a gwariant y Clwb ac yn dangos faint o arian sydd mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn.

Aelodaeth

Cynyddwyd y tâl aelodaeth o £25 i £35 ar 1 Ionawr 2026 ond mae unrhyw un sy'n ymaelodi rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr yn cael aros yn aelod tan ddiwedd y flwyddyn ganlynol heb dalu eto ar 1 Ionawr. Roedd 5 aelod newydd rhwng Hydref a Rhagfyr 2025 oedd wedi talu £25 o dâl aelodaeth. Felly yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26 roedd gan y Clwb 5 aelod yn talu ar yr hen gyfradd o £25 a 243 aelod yn talu £35, ddaeth â chyfanswm incwm o £8,630. Yn ogystal roedd yna 56 unigolyn yn cyfrannu llai na'r tâl aelodaeth llawn yn 2026 ac felly ddim yn gymwys i fod yn aelodau. O'r rhain roedd 16 yn talu £25, 16 yn talu £20, 19 yn talu £15 a 5 yn talu symiau llai. Cyfanswm yr incwm gan y "caredigion" hyn oedd £1,053.

Mae'r Clwb yn perthyn i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP), sy'n darparu yswiriant ar gyfer y gweithgareddau. 'Roedd cost ymaelodi â'r CMP yn £30.74 y pen (gyda rhywfaint o ostyngiad yn ystod ail hanner y flwyddyn). Cyfanswm y taliad i'r CMP ar gyfer y 248 aelod oedd £7,592.78.

Cinio blynyddol

Derbyniwyd £820 at ginio blynyddol 2025 yn y Royal Oak, Betws y Coed a thalwyd £908.50 – gwahaniaeth o £88.50. Mae hyn yn cynrychioli rhan o gost llogi ystafelloedd i aelodau newid ynddynt ar ôl taith.

Teithiau

Talwyd am ddwy daith breswyl yn ystod y flwyddyn - i Grianlarich mis Mawrth ac i Ullapool mis Mai. Cafwyd incwm o £7,931 ar y teithiau yn erbyn gwariant o £7,632.80. Tra fod taith Crianlarich wedi talu amdani'i hun i'r geiniog, 'roedd bron i £300 o arian dros ben ar daith Ullapool gan iddi werthu allan yn llwyr.

Incwm arall

Yr unig incwm arall oedd llog banc o £91.61 a rhodd o £45 gan aelod.

Gwariant arall

‘Roedd y gwariant yn cynnwys y costau rhedeg arferol yn ymwneud â bancio, gweinyddiaeth (costau postio yn benodol), cynnal y wefan, y ddarlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol a batri i’r diffibrilyddion. Hefyd talwyd £270 am gerdyn pwrpasol i aelodau ei gario ar deithiau ac sy’n cynnwys manylion cyswllt argyfwng. Daeth cyfanswm y gwariant dan y pennawd hwn i £1,069.16.

Arian wrth gefn

Ar ddiwedd y flwyddyn ‘roedd gan y Clwb £7,105.63 yn y coffrau. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £1,367.37 ar y flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli’r cynnydd yn bennaf i’r incwm ychwanegol o’r cynnydd yn y tâl aelodaeth. Bydd hyn yn gostwng dros y blynyddoedd nesaf fel y bydd y CMP yn cynyddu eu ffioedd nhw.

Mae’r Clwb angen cadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy’n mynychu) ac hefyd er mwyn gwarchod yn erbyn gwariant annisgwyl. Credir fod swm digonol yn y coffrau ar gyfer hynny ar hyn o bryd. Gan bod angen i’r arian fod ar gael ar fyr rybudd mae’n cael ei gadw mewn cyfrif cadw yn y banc yn hytrach na’i fuddsoddi am dymor hirach.

Tal aelodaeth 2027

Mae ffi y CMP yn cynyddu’n flynyddol yn unol â graddfa chwyddiant ac o’r 1 Ionawr 2027 bydd yn £31.63 yr aelod. Gan fod hyn yn parhau’n is na thâl aelodaeth y Clwb a bod digon o arian wrth gefn argymhellir cadw’r tâl aelodaeth ar £35 ar gyfer 2027.

Dilys Phillips
20 Hydref 2026